FFURFLEN RHW21

# HYSBYSIAD Y LANDLORD O HAWLIAD MEDDIANT AR SAIL ÔL-DDYLEDION RHENT DIFRIFOL: CONTRACT SAFONOL RHAGARWEINIOL NEU GONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDEDIG

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig o dan adran 182(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol.*

| **Rhan A: Landlord** | **Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: | Enw(au): |

| **Rhan C: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

## Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant

Mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, fod y landlord yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar sail ôl-ddyledion rhent difrifol. Mae manylion eich ôl-ddyledion rhent difrifol fel a ganlyn:

*Ticiwch fel y bo'n gymwys.*

☐ Mae o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu bob wythnos/pythefnos/pedair wythnos)

☐ Mae o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu (pan fo'r rhent yn cael ei dalu yn fisol)

☐ Mae o leiaf un chwarter o rent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n chwarterol)

☐ Mae o leiaf 25% o'r rhent dros dri mis yn hwyr (pan fo'r rhent yn cael ei dalu'n flynyddol)

## Rhan E: Yr Hawl i Ofyn am Adolygiad

Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract o dan adran 202(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ofyn bod y landlord yn adolygu'r penderfyniad i roi'r hysbysiad hwn. Rhaid gofyn i'r landlord am adolygiad erbyn [*dyddiad*] …………………………

*Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.*

| Rhan F: Llofnod | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br><br>…………………………… | Dyddiad:<br><br>…………………………… |

**Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn**

Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn diwedd cyfnod o un mis sy’n dechrau â’r diwrnod y mae’r landlord yn rhoi’r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract, neu ar ôl i’r cyfnod o chwe mis sy’n dechrau â’r diwrnod hwnnw ddod i ben.

**Canllawiau i ddeiliaid contract**

Mae’r hysbysiad hwn yn dweud wrthych fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i adennill meddiant o’r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ddarllen yr hysbysiad yn ofalus a gofyn am gyngor ynghylch eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Y dyddiad cynharaf y gall achosion adennill meddiant ddechrau yw un mis o ddyddiad yr hysbysiad hwn.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â’ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi’n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â’ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu’r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â’ch awdurdod lleol i gael cymorth.